

UNED : YR ANIFAIL SY’N TYFU - IECHYD A LLES

CYFLWYNIAD

Mae iechyd a lles gwartheg sy’n tyfu yn cael effaith fawr ar eu proffidioldeb. Mae’r rhan fwyaf o glefydau gwartheg sy’n tyfu yn achosi lliid ysgafn ac yn arafu’r tyfiant a’r pesgi. Ond gall eraill effeithio’n fwy difrifol neu arwain at glefydau mwy niweidiol neu farwol.

Mae’r clefydau a geir mewn gwartheg sy’n tyfu fel arfer yn syrthio i’r categorïau canlynol :

- Cloffni
- Niwmonia
- Parasitiaid mewnol
 - Gastroenteritis parasitig (llyngyr y coluddyn)
 - Llyngyr yr ysgyfaint (hach)
 - Llyngyr yr iau
- Parasitiaid allanol

Rhaid archwilio’r gwartheg yn rheolaidd – o leiaf yn ddyddiol – gyda llygaid hyfforddedig os yw’r problemau hyn i’w hatal neu eu rheoli.

CLOFFNI

Mae cloffni yn bryder lles difrifol mewn gwartheg i gyd a gall fod yn ganlyniad nifer o gyflyrau :

Cyflwr	Achos	Symptomau	Atal	Triniaeth
Troed clonc	Bacteria yn mynd i mewn i’r briw neu feinwe meddal - ysgarthion a mwd gwlyb	Hollt yn y croen rhwng yr ewinedd – chwydd yn aml yn symud i fyny’r goes	<ul style="list-style-type: none">• Amodau sych, glân o dan draed – y tu allan neu dan do• Hylendid	<ul style="list-style-type: none">• Chwistrell wrthfotig• Gwrthfotig

Crawniadau gwadn / clefyd llinell wen	Crawniad yn ffurfio ar ôl niwed gan laid neu gerrig	Crawniad yn agos i'r sawdl – fel arfer y goes ôl	<ul style="list-style-type: none"> Archwiliad rheolaidd 	<ul style="list-style-type: none"> Tocio'r droed i ryddhau'r crawn Bloc esgid yn yr achosion gwaethaf
Gordyfiant	Gordyfiant yn y droed yn lleihau'r arwyneb sydd mewn cysylltiad â'r llawr	Bys troed yn plygu i fyny'n aml	<ul style="list-style-type: none"> Osgoi amodau meddal dan draed e.e. iardiau gwelltog 	Tocio'r traed

NIWMONIA

Niwmonia ydi un o'r problemau mwyaf a geir mewn gwartheg dan do, yn enwedig yn ystod diwedd yr hydref / dechrau'r gaeaf, yn fuan ar ôl lletya, os yw'r amodau yn gynnes a llaith :

- Haint gychwynnol gan firws
- Haint eilaidd gan facteria

ond ambell dro

- Haint gychwynnol gan facteria

Achosir y problem gan firysau a bacteria fel ei gilydd – mae'r mwyafrif o achosion yn cael eu cychwyn gan firysau sydd yn aml yn gwanhau system imiwnedd yr anifail, a'i heintio gydag effeithiau sydd yn llawer iawn llymach.

Niwmonia mewn gwartheg sy'n tyfu a phesgi

Ffactorau risg	<ul style="list-style-type: none"> Awyriad gwael Drafftiau Tymereddau eithafol – poeth / oer Straen wrth symud, cymysgu, trafod neu letya Rheolaeth wael – yn enwedig
-----------------------	--

	hylendid
Diagnosis	<ul style="list-style-type: none"> • Tymheredd uchel • Anadlu'n drwm / byr eu gwynt • Dim yn yfed na bwyta • Aros ar wahân i'r stoc arall
Atal	<ul style="list-style-type: none"> • Hwsmonaeth dda • Trafod yn ofalus ayb • Dwysedd stocio cywir • Tocio'r cefn
Rheoli	<ul style="list-style-type: none"> • Brechu • Gwrthfotigau

Ffactorau rheolaeth i'w hystyried :

- Cynllunio a lleoli adeiladau i gael awyriad / symudiad aer da
- Sicrhau gwely sych, glân, di-lwch
- Atal gorlenwi
- Lleihau straen drwy beidio gwneud gweithgareddau fel diddyfnu, dilyngyru, pwyso, cymysgu lloi o wahanol grwpiau'r un pryd

Dylid ystyried brechu, adeiladau a rheolaeth fel dulliau ar y cyd i ymosod ar y broblem, a dylid cael cyngor y milfeddyg er mwyn sicrhau fod y diagnosis yn un cywir.

PARASITIAID MEWNOL

Gall parasitiaid mewnol fod yn broblem, yn enwedig mewn amgylcheddau tirddwys neu dir pori gwlyb. Mae gwartheg, yn enwedig yn eu blwyddyn gyntaf, yn dueddol i gael y clefyd gydag anifeiliaid blwydd oed hefyd mewn perygl. Mae'r problemau'n codi o :

- 'lyngyr' perfeddol neu goluddol
- Llyngyr yr ysgyfaint (hach)
- Llyngyr yr iau

Fel arfer, achosir gastro-enteritis parasitig gan *Ostertagia ostertagi* ac fe osodir yr wyau ar borfa yn ysgarthion yr anifail a deori mewn tywydd cynnes, llaith i larfau heintus sy'n cael eu hamlyncu gan anifeiliaid sy'n pori. Mae'r larfau'n datblygu'n oedolion yn stumog yr anifail, gan achosi niwed a dodwy wyau eu hunain.

Rhaid trin yr anifeiliaid ag anthelmintig drwy'r genau, â chwistrell neu ei arllwys unwaith y flwyddyn. Dylid trin stoc newydd eu prynu cyn gynted ag y maen nhw wedi dod i'r fferm.

Gastroenteritis parasitig (llyngyr) mewn gwartheg sy'n tyfu neu besgi

Ffactorau risg	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfraddau stocio uchel • Gwartheg ifanc yn pori ar dir pori sydd wedi ei bori gan wartheg ifanc yn y blynyddoedd blaenorol • Tywydd gwlyb canol i ddiwedd yr haf yn achosi 'toreth' o larfau yn y borfa
Diagnosis	<ul style="list-style-type: none"> • Ysgothi difrifol - parasitiaid Math I, canol haf ymlaen, Math II yn hwyr yn y gaeaf mewn anifeiliaid dan do o ddatblygiad 'ataliedig' y larfau • Colli archwaeth • Colli cyflwr
Atal	<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio drensh, arllwysion, bolysau, neu frechlyn anthelmintig yn y gwanwyn er mwyn cyfyngu ar effaith y parasitiaid ar y tir pori • Porfa 'lân' sydd heb ei bori gan wartheg ifanc yn y flwyddyn flaenorol neu, o ganol haf, porfa sydd ddim wedi ei bori gan wartheg ifanc yn gynharach yn yr un tymor • Pori cymysg gan rywogaethau eraill e.e. defaid sy ddim yn cael eu heffeithio gan barasitiaid nac yn lledaenu parasitiaid gwartheg
Rheoli	<ul style="list-style-type: none"> • Anthelmintig (EFFEITHIOL – mae

	ymwrthedd yn bodoli ar nifer o ffermydd, i o leiaf rhai o'r cyffuriau sydd ar gael)
--	---

Achosir llyngyr yr ysgyfaint gan bla *Dictyocaulus viviparus* yn y tiwbiau bronciol, larfau sydd wedi eu hamlyncu'n treiddio i mewn i wal y perfedd a datblygu'n oedolion yn yr ysgyfaint - pesychu parhaus ac anawsterau anadlu. Mae'r wyau a ddodwyd gan yr oedolion hyn yn cael eu pesychu i fyny a'u llyncu, ac mae'r gylchred yn parhau.

Llyngyr yr ysgyfaint mewn gwartheg sy'n tyfu a phesgi

Ffactorau risg	<ul style="list-style-type: none"> Gwartheg ifanc yn pori ar diroedd pori sydd wedi eu pori'n ddiweddar gan wartheg hŷn Pori yn hwyr yn yr haf neu'r hydref
Diagnosis	<ul style="list-style-type: none"> Byr eu gwynt Peswch Sefyll gyda'u pennau i lawr ac yn aml yn ymladd am anadl
Atal	<ul style="list-style-type: none"> Imiwnedd drwy amlygiad naturiol yn dilyn pori ar dir pori sydd wedi ei heintio'n gymedrol
Rheoli	<ul style="list-style-type: none"> Brechriad

Gall llyngyr yr iau (*Fasciola hepatica*) fod yn broblem fawr arall, yn enwedig ar dir gwlyb pan mae'r wyau'n cael eu rhoi ar ysgarthion ac yn deor. Mae'r larfau'n heintio'r malwod dŵr cyn datblygu'n euod ifanc sydd yn eu tro yn cael eu bwyta gan anifeiliaid sy'n pori. Mae'r larfau'n treiddio i'r iau gan achosi colli cyflwr yn ddramatig ac, ambell dro, marwolaeth.

Llyngyr yr iau mewn gwartheg sy'n tyfu a phesgi

Ffactorau risg	<ul style="list-style-type: none"> Holl wartheg sy'n pori – yn enwedig ar dir pori gwlyb Blynyddoedd gwlyb eithriadol
-----------------------	---

Diagnosis	<ul style="list-style-type: none"> • Ysgothi parhaus • Colli pwysau yn sydyn, ac yn annisgwyl, ac anemia
Atal	<ul style="list-style-type: none"> • Ffensio ardaloedd gwlyb
Rheoli	<ul style="list-style-type: none"> • Gwrthlyngryddion yr iau – mae triniaeth unwaith fel arfer yn ddigon yn y blynyddoedd sydd â risg isel (lonawr) ond efallai bydd angen ail driniaeth yn Hydref/Tachwedd yn y blynyddoedd â risg uchel

PARASITIAID ALLANOL

Ectoparasitiaid e.e. mae llau yn byw ar, neu yn y croen, a gall arwain at berfformiad is a phryderon am les anifail.

- Pryfed – naill ai'n sugno gwaed neu'n bwydo ar redlifau e.e. o lygaid gan achosi llawer o gosi poenus ynghyd â throsglwyddo'r clefyd 'New Forest Eye' a mastitis haf mewn heffrod
- Llau - fel arfer yn broblem yn y gaeaf pan fydd cotiau mwy trwchus ac agosatrwydd yr anifeiliaid dan do yn golygu bod y llau'n bridio ac ymledu, a'r anifeiliaid yn crafu a chosi'n boenus
- Clafr - achosir gan widdon ar ddiwedd y gaeaf, fel arfer gydag anifeiliaid mewn cyflwr gwael
- Trogod – fel arfer yn cael eu cyfyngu i dir pori garw sydd wedi ei orchuddio â llystyfiant fel rhedyn, ond gall achosi clwyfau sy'n denu pryfed ac ymledu clefydau e.e. Twymyn y Dŵr Coch

Mae'n bwysig diagnosis'r broblem mor gywir â phosibl er mwyn rhoi'r driniaeth gywir.

CYNLLUNIO IECHYD

Mae cynllun iechyd yn hanfodol os yw'r problemau hyn i'w cadw dan reolaeth neu eu hatal ,a dylai ymdrin â stoc ifanc a'r stoc sy'n tyfu

Dyma'r themâu allweddol :

- Maeth - rhaid porthi'r gwartheg yn ddigonol drwy'r amser

- Hylendid – o ran adeiladau, yr heintiau firaol a bacteriol yn ogystal â pharasitiaid allanol, ac o ran glaswelltir, y parasitiaid mewnol
- Mae awyriad ac osgoi gorlenwi yn lleihau'r bygythiad o niwmonia
- Dylid lleihau straen drwy beidio gwneud y canlynol gyda'i gilydd : pwyso, dilyngyru, diddyfnu neu gymysgu grwpiau
- Asesu lle mae'r clefyd a'r colledion yn digwydd ac addasu'r cynllun iechyd yn unol â hynny

CASGLIADAU

Awgrymiadau ar gyfer iechyd gwartheg :

1. Peidiwch â phrynu clefydau - cadwch uned hunangynhaliol neu prynwch anifeiliaid o ffynonellau â statws iechyd hysbys
2. Monitrowch iechyd buches yn barhaus a datrysych y problemau'n gyflym
3. Rheolwch glefydau na ellir eu dileu gan frechiad
4. Defnyddiwch reolaeth dda er mwyn gwella iechyd yn gyffredinol
5. Ceisiwch wella amgylchedd yr anifeiliaid – adeiladau → awyriad; tir → draeniad ayb
6. Cydweithiwch yn agos â'r milfeddyg i lunio cynllun iechyd effeithiol
7. Cofnodwch yr holl bethau a wnaethoch

FFYNONELLAU GWYBODAETH

EBLEX (2006) Beef Action for Profit 15 – Better Returns from Reducing Herd Lameness

EBLEX (2007) Beef Action for Profit 24 – Better Returns from Planned External Parasite Control

EBLEX (2007) Beef Diseases Directory

EBLEX / DairyCo (2010) Control of Worms Sustainably – COWS

HCC (2010) Awyru i Reoli Niwmonia Mawrth 2010